Ebrill 2019

Annwyl Riant / Warcheidwaid,

Mae'n bleser medru cyflwyno'r wisg ysgol newydd gogyfer Medi 2019. Roedd y broses ymgynghori yn gynhwysfawr a cymerwn y cyfle i ddiolch i bawb am eu sylwadau a'u syniadau. Mae'r cyfan wedi dod at ei gilydd yn rhagorol ac mae gennym sylfaen gadarn wrth i ni sefydlu'r ysgol newydd gyda'n gilydd.

Bydd disgwyl i ddisgyblion wisgo'r wisg swyddogol newydd o fis Medi 2019. Rydym serch hynny am ddangos hyblygrwydd gyda rhannau o'r wisg am y flwyddyn gyntaf er mwyn hwyluso'r trefniadau trosglwyddo i chi fel rhieni.

Ysgol Isaf: Y wisg ysgol newydd yn ddymunol gyda'r hen wisg yn dderbyniol.

Bl 5 a 6: Y wisg ysgol newydd yn ddymunol gyda'r hen wisg yn dderbyniol.

Bl 7: Gwisg newydd yn orfodol.

Bl 8: Gwisg newydd yn ddymunol gyda'r opsiwn i wisgo trowsus du / sgert ddu (hyd at y ben-glin), crys polo haf gwyn a'r siwmper ysgol bresennol.

Bl 9/10: Gwisg newydd yn orfodol ond gyda'r opsiwn i wisgo trowsus du / sgert ddu (hyd at y ben-glin)

Bl 11: Gwisg newydd yn orfodol ond gyda'r opsiwn i wisgo trowsus du / sgert ddu (hyd at y ben-glin) a chrys gwyn / blows wen.

Bl 12: Gwisg newydd yn orfodol.

Bl 13: Gwisg bresennol gyda logo Ysgol Gyfun Garth Olwg ar y Blaser.

Gwisg Addysg Gorfforol: Gwisg newydd a'r hen wisg yn dderbyniol nes Gorffennaf 2021

Rydym yn deall bod trosi i'r wisg newydd yn mynd i roi her arbennig i'r teuluoedd hynny sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, ac felly mae'n bleser gennym gyhoeddi y byddwn yn darparu grant o £80 y plentyn (Ysgol Isaf) a £125 y plentyn (Ysgol Ganol, Uchaf a Hŷn) ar gyfer 2019-20. Rydym hefyd yn barod i roi cymorth ariannol i deuluoedd eraill sy'n gweithredu yn ddyddiol ar y ffin tlodi fel modd o hwyluso'r trosglwyddiad i'r wisg newydd. Bydd ffurflen gais gogyfer y cymorth hwn ar gael ar ôl y Pasg.

O fis Mehefin bydd y wisg ysgol ar gael o'r Welsh Shop sydd hefyd yn darparu gwasanaeth archebu ar-lein www.welshcymruclothing.com. Mae'n ofynnol i'r Blaseri swyddogol newydd gael eu prynu o'r siop hon, sydd hefyd yn darparu gwasanaeth brodwaith swyddogol ar gyfer eitemau eraill o'r wisg sy'n cydymffurfio'n llawn gyda lliwiau swyddogol yr ysgol.

Yn y cyfamser rydym yn gweithio'n ddiwyd i gwblhau'r penodiadau staff a byddwn yn defnyddio tymor yr haf i barhau i gynllunio ar gyfer agor Ysgol Garth Olwg ym mis Medi.
Cymerwn y cyfle i ddiolch i chi eto am eich cymorth a'ch cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi i sefydlu ein hysgol newydd gyda'n gilydd ym mis Medi.

Yn gywir,

Trystan Edwards Prifathro	Julie Barton Cadeirydd y Corff Llywodraethu Dros Dro	Alex Harden Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu Dros Dro

April 2019

Dear Parent / Guardian,

It with great pleasure that we present the new school uniform for September 2019. We would like to take this opportunity to thank you for all your comments and suggestions during our comprehensive consultation process. This is the culmination of a joint effort and the new uniform provides a solid foundation for the establishment of our new school.

Pupils will be expected to comply with the new official uniform from September 2019. In order to assist you as parents, we will however exercise some flexibility with particular items of the school uniform during the first transitional year.

Lower School: New uniform desirable; old uniform continues to be acceptable.

Yr 5 & 6: New uniform desirable; old uniform continues to be acceptable.

Yr 7: New uniform compulsory.

Yr 8: New uniform desirable with the option to wear black trousers / skirt (knee length), white summer polo shirt & existing school jumper.

Yrs 9/10: New uniform compulsory with the option to wear black trousers / skirt (knee length).

Yr 11: New uniform compulsory with the option to wear black trousers / skirt (knee length) and white shirt / blouse.

Yr 12: New uniform compulsory.

Yr 13: Current uniform with Ysgol Gyfun Garth Olwg logo on the Blazer.

Physical Education Kit: Both the old and new kits will be acceptable until July 2021.

We fully understand that the change in uniform will provide a challenge for those families who claim free school meals, and consequently we are delighted to announce that we will allocate a proportion of our Pupil Development Grant to provide financial assistance for 2019-20. Lower School pupils will be entitled to a uniform grant of £80 with Middle, Upper & Senior School pupils receiving £125. We will also set aside funds for families able to confirm that they are subsisting on the poverty line in order to assist with the transition to the new uniform. An application form for this grants will be available after Easter.

The new school uniform will be sold online and in store by The Welsh Shop from the beginning of June: www.welshcymruclothing.com. Official School Blazers must be purchased from the Welsh Shop, where it will also be possible to purchase the official embroidery service for other garments which fully comply with the official uniform colours.

In the meantime, we continue working diligently to complete the necessary staff appointments, and during the Summer term our focus will be to prepare for the opening of Ysgol Garth Olwg in September. We would like to take this opportunity to thank you again for your continued support and we very much look forward to continued collaboration as we establish our new school from September.

Yours faithfully,

Trystan Edwards Headteacher	Julie Barton Chair of Interim Governing Body	Alex Harden Vice Chair of Interim Governing Body